Llywodraeth Cymru
Welsh Government

SAFONAU

# SAFON WIRFODDOL ANSAWDD BYSIAU CYMRU

Ail Argraffiad


# Rhagarweiniad

1. Mae'r Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau (BSSG) ar gyfer Safon Wirfoddol Ansawdd Bysiau Cymru'n cael ei neilltuo i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru iddynt gael rhoi help ariannol at gostau rhedeg gwasanaethau gweithredwyr bysiau yng Nghymru na fyddent fel arall yn cael eu cynnal neu eu darparu at y safon ofynnol.

2. Ym mis Mehefin 2014, cyflwynodd y Grŵp Cynghori ar Bolisi Bysiau, sydd â chynrychiolwyr o'r diwydiant bysiau, awdurdodau lleol a grwpiau teithwyr yn aelodau ohono, argymhellion ar sut i wella ansawdd gwasanaethau bysiau lleol, ynghyd â gwella eu hyfywedd ariannol a'u cynaliadwyedd yn yr hirdymor.

3. Un o brif argymhellion y grŵp oedd sefydlu Safon Bysiau i Gymru. Cefnogwyd yr argymhelliad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Cynigiwyd y dylai'r Safon Ansawdd Bysiau genedlaethol hon ddefnyddio grant i ysgogi gweithredwyr i gyrraedd a chynnal y safonau ansawdd angenrheidiol ac i'w gwobrwyo am hynny. Heb fodloni'r safonau, ni chaiff gweithredwr ymgeisio am y cyllid cyhoeddus a ddarperir trwy'r BSSG.

4. Bydd gofyn i weithredwyr felly sy'n darparu gwasanaethau bysiau lleol fodloni gofynion craidd Safon Ansawdd Bysiau Cymru i gael hawlio arian cyhoeddus y BSSG. Cytunir ar y safonau craidd hynny a byddant wedi'u cyhoeddi. Os na fydd gwasanaethau bysiau lleol yn bodloni'r gofynion craidd hyn, ni fyddant yn gymwys am yr arian sy'n cael ei ddarparu trwy'r BSSG.



# Safon Ansawdd Wirfoddol Bysiau Cymru

5. Ym mis Ionawr 2013, ar ôl adolygu cynlluniau cyllido bysiau, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai 2013-14 yn flwyddyn o newid pan fyddai'r grŵp gweithredu cyllid bysiau yn clustnodi'r safonau ansawdd y byddai gofyn i wasanaethau masnachol eu bodloni fel tâl am gyllid cyhoeddus o 1 Ebrill 2014.

6. Ar y pryd, roedd y canlyniadau ansawdd yn cynnwys y canlynol:
   a. Hyfforddiant i yrwyr ar hawliau ac anghenion pobl anabl.
   b. Darparu cyhoeddiadau sain ac ysgrifen ar fysiau.
   c. Sgriniau gwybodaeth safonol ym mhob safle bws.
   d. Gyrru diogel ac effeithlon.
   e. Rhwydweithiau sy'n ystyried anghenion pobl sydd am gludiant bws i wasanaethau iechyd, addysg, hyfforddiant a gwaith.
   f. Cynlluniau tocynnau integredig rhwng gwahanol weithredwyr, fel bod teithwyr yn gallu defnyddio'u tocynnau ar bob gwasanaeth, ac nid ar rai yn unig.
   g. Integreiddio amserlenni â moddau trafnidiaeth eraill.

7. Pwrpas Safon Wirfoddol Ansawdd Bysiau Cymru a gynigiwyd gan y Grŵp Cynghori ar Bolisi Bysiau yw sicrhau bod:
   a. ansawdd y gwasanaethau bysiau lleol y gall teithwyr yn rhesymol eu disgwyl ar gael yn gyson i bawb ledled Cymru; a bod
   b. cwmnïau bysiau lleol yn cael eu hannog i wella ansawdd y gwasanaethau maen nhw'n eu darparu i deithwyr.

8. Wrth ddatblygu'r ail argraffiad hwn o'r Safon Ansawdd, cydnabyddir y bydd angen amser i sicrhau rhai o'r gwelliannau i ansawdd gwasanaethau bysiau lleol a gallent fod yn ddibynnol ar ffactorau allanol sydd y tu hwnt i reolaeth awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau, fel cysylltiadau Wi-Fi a ffonau clyfar.

   Mae'r Safonau Ansawdd felly'n cynnwys gofynion craidd y mae'n rhaid eu bodloni i gael arian cyhoeddus oddi wrth awdurdodau lleol trwy'r grant BSSG.

9. Caiff awdurdodau lleol barhau i bennu gofynion ansawdd ychwanegol ar ben y gofynion craidd a ddisgrifir yn y canllaw hwn. Gall y gofynion ychwanegol hyn fod yn ddisgwyliadau a allai gael eu hystyried fel rhai mwy uchelgeisiol ar gyfer y diwydiant ledled Cymru, neu'n ofynion fydd yn bodloni angen lleol mwy penodol.

10. Gellir cynnig taliad premiwm i weithredwyr bysiau sy'n llwyddo i fodloni'r gofynion ychwanegol hyn. Awdurdodau lleol fydd yn penderfynu faint o'u grant ddylai gael ei wario ar y safonau ychwanegol hyn. Gellir defnyddio arian y BSSG i gefnogi gofynion ychwanegol y ceir cytundeb lleol iddynt cyn belled â bod y gweithredwyr bysiau wedi bodloni ac yn cynnal yr holl ofynion craidd.

11. Wrth benderfynu faint o arian ddylai gael ei roi i weithredwyr, dylid cymryd gofal i sicrhau nad yw gweithredwyr llai yn diodde'n anghymarus gan y gallent fod yn dibynnu ar lefel hanesyddol o gyllido cyhoeddus i gynnal eu gwasanaethau presennol, yn enwedig yn ardaloedd mwy gwledig Cymru.

# Pwy sy'n gymwys

12. Yn unol â chanllaw'r BSSG, y gwasanaethau bysiau lleol sy'n gymwys yw'r rheini sy'n cyfateb i ddiffiniad Llywodraeth Cymru yn ei chynllun gorfodol teithio rhatach ar fysiau. I'r diben hwn, mae gwasanaethau lleol yn cael eu diffinio yn adran 2 Deddf Trafnidiaeth 1985 a byddant wedi'u cofrestru gyda'r Comisiynydd Traffig. Gallent gynnwys, er enghraifft, darparwyr gwasanaethau bysiau cymunedol o dan adran 22 Deddf Trafnidiaeth 1985, gwasanaeth bysiau hyblyg, gwasanaeth sy'n defnyddio cerbyd â llai nag wyth sedd a gwasanaeth bws tacsi, yn ogystal â gwasanaethau bysiau confensiynol.

13. Mae gwasanaethau hyblyg a gyflwynwyd trwy Reoliadau Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus (Cofrestru Gwasanaethau Lleol) (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2004 hefyd yn gymwys.

14. Mae gwasanaethau coetsys yn cynnig gwasanaethu marchnadoedd teithiau hir fel arfer nad ydynt yn gymwys am grant BSSG ac maent wedi'u heithrio'n benodol o'r safon hon.








# Safon Wirfoddol Ansawdd Bysiau Cymru – Gofynion Craidd

15. Rhaid i wasanaethau bysiau lleol fodloni a chynnal gofynion craidd y safon i gael y taliadau sydd ar gael trwy'r BSSG o 1 April 2018.

16. Mae hyn yn golygu y bydd angen i weithredwyr bysiau sicrhau'r canlynol:

   a. bod gan gerbydau sydd â mwy na 22 o seddi sgrin flaen sy'n dangos cyrchfannau. Bydd yn cael ei defnyddio ac yn hawdd ei darllen yn y nos, mewn golau bach ac yn ystod tywydd drwg, gan roi gwybodaeth gywir am gyrchfan y daith a'r prif fannau aros ar hyd y ffordd;

   b. bod y cerbydau'n cael eu glanhau y tu fewn a'r tu allan ar gyfer gwasanaeth cynta'r dydd;

   c. bod offer sain / ysgrifen i gyhoeddi'r stop nesaf yn cael eu gosod ac yn gweithio ar gerbydau (newydd ac ail-law) pob gweithredwr a archebir ar ôl 1 Ebrill 2018[1];

   d. bod peiriannau tocynnau electronig sy'n derbyn cardiau clyfar yn cael eu gosod ar gerbydau - rhaid i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r peiriant;

   e. bod gyrwyr ac unrhyw weithwyr eraill ar y bws yn cael iwnifform, a rhaid iddynt ei wisgo;

   f. bod polisi cwynion ysgrifenedig Bydd y polisi'n cynnwys trefniadau i gydnabod cwyn o fewn saith niwrnod ar ôl iddo ddod i law gweithredwr, a bod yr ateb terfynol yn cael ei roi o fewn 21 niwrnod ar ôl derbyn y gŵyn Bydd y polisi cwynion yn cynnwys hefyd drefniadau ynghylch sut i apelio ac wrth bwy i apelio os nad yw teithiwr yn fodlon ag ateb y gweithredwr;

   g. arwydd clir dwyieithog ar y bws ac ar-lein sy'n esbonio wrth deithwyr sut ac wrth bwy i gwyno neu apelio, gan gynnwys manylion cysylltu ac amserau ateb;

   h. darparu gwybodaeth amserol pan fydd yn rhaid gwneud newidiadau heb eu cynllunio i wasanaethau, gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu hygyrch, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol a Traveline Cymru;

---

1 yn unol ag argraffiad cyntaf y Safon Ansawdd a gyhoeddwyd yn 26 Mawrth 2016, mae gweithredwyr bysiau mwy (50 o gerbydau neu fwy) wedi gorfod gosod systemau sain ac ysgrifen i gyhoeddi'r stop nesaf ar gerbydau a ddaeth i'w meddiant ar ôl 26 Mawrth 2016.

i. bod gwybodaeth gyfoes a dwyieithog i deithwyr gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu hygyrch ar bob cerbyd am ba mor aml y cynhelir gwasanaethau, cynlluniau i newid gwasanaethau, amserlenni ac opsiynau tocynnau;

j. lle'u ceir, eu bod yn cymryd rhan mewn PlusBus a chynlluniau tocynnau rhwydwaith eraill sy'n cael eu trefnu neu'u sefydlu gan awdurdodau leol;

k. bod gyrwyr wedi cael hyfforddiant ar hawliau ac anghenion pobl anabl fel rhan o'r modiwl CPC i yrwyr a'u bod yn mynd ar hyfforddiant gloywi bob pum mlynedd;

L. bod Traveline Cymru, neu asiant cynllunio teithiau arall a hysbyswyd gan Lywodraeth Cymru, yn cael copi llawn o gofrestriad gwasanaeth bws newydd (naill ai papur, PDF neu fformat cofrestredig arall a lle bo'n bosib, ffeil electronig o'r amserlen a phrisiau tocynnau) neu wasanaeth sy'n cael ei newid / ei ganslo yr un pryd y mae'r cais yn cael ei wneud i Swyddfa'r Comisiynydd Traffig a'r awdurdod lleol.

## Gofynion Ychwanegol gan yr Awdurdod Lleol

17. Er bod Llywodraeth Cymru'n neilltuo grantiau BSSG i gefnogi gwasanaethau bysiau lleol na fyddai'n cael eu darparu neu'n bodloni'r safon ofynnol fel arall, nid yw hynny'n rhwystro awdurdodau lleol rhag dod i gytundeb â gweithredwyr bysiau yn eu hardal i fodloni safonau ansawdd ychwanegol, cyn belled â'u bod yn cadw at y gofynion lleol o ran Cymorth Gwladwriaethol.

18. Amcan y grantiau BSSG a delir gan Lywodraeth Cymru yw sicrhau bod gweithredwyr yn bodloni'r gofynion craidd yn ardal unrhyw awdurdod lleol. Gellir defnyddio unrhyw arian BSSG sy'n weddill ar ôl bodloni'r safonau craidd i dalu am gostau gofynion ychwanegol lleol i ategu'r arian a ddarperir gan awdurdodau lleol.

19. Mewn ymgynghoriad â gweithredwyr bysiau lleol, ni chaiff awdurdodau lleol ychwanegu ond y safonau ansawdd hynny y credir eu bod yn rhesymol, cymesur ac yn seiliedig ar dystiolaeth, fel:

a. Bod â systemau a'u cynnal i sicrhau bod gweithredwyr yn cymryd rhan mewn cynlluniau gwybodaeth lleol, rhanbarthol neu genedlaethol amser real.

b. Ffitio a gweithredu systemau CCTV ar fysiau, lle ceir tystiolaeth o droseddu cyson er enghraifft.

c. Costau sy'n gysylltiedig â defnyddio cerbydau isel eu hallyriadau lle ceir problemau ag ansawdd aer.

d. Gosod system delematig ar gerbydau i fonitro perfformiad y gyrrwr / cerbyd e.e. Greenroad, Mix ac ati).

## Gweithredu

20. Mae llwybrau bysiau lleol yng Nghymru yn aml yn rhychwantu ffiniau mwy nag un awdurdod lleol. Wrth roi'r safonau hyn ar waith, mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn cydweithio â gweithredwyr bysiau ac awdurdodau cyffiniol sy'n rhannu llwybrau bysiau yn eu hardal.

21. Yn y de-ddwyrain er enghraifft, mae'r cynllun safonau ansawdd presennol wedi bod o dan oruchwyliaeth bwrdd prosiect â sawl sefydliad yn perthyn iddo. Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer argraffiad cyntaf y Safonau Ansawdd (VWBQS), argymhellodd y Grŵp Cynghori ar Bolisi Bysiau fod byrddau prosiect VWBQS lleol yn cael eu sefydlu i gadw golwg ar y gwaith. Ar ôl ei sefydlu, mater i'r awdurdodau cyllido unigol fydd penderfynu ar y trefniadau i weinyddu'r cynllun.

## Rheoli a monitro

22. Mae'n hanfodol monitro'r arian sy'n cael ei hawlio am fodloni'r safonau a bod y broses ar gyfer gwneud hynny'n gymesur a rhesymol. Wrth benderfynu faint o BSSG i'w dalu i weithredwyr bysiau, bydd angen digon o dystiolaeth ategol ar awdurdodau lleol i brofi bod y 'safonau ansawdd' wedi'u rhoi ar waith a'u cynnal, o ran y gofynion craidd a'r gofynion ychwanegol.

23. Mae Defnyddwyr Bysiau Cymru wedi cytuno y bydd Swyddogion Cydymffurfiaeth Bysiau yn helpu awdurdodau lleol i gadw at y safonau a'u cynnal. Os bydd gan awdurdod lleol le i gredu bod gweithredwr wedi hawlio am safonau nad yw wedi'u bodloni, yna gellir gofyn i'r gweithredwr am ragor o wybodaeth a dogfennau. Mewn ambell achos, bydd angen archwilio cofnodion, depos a/neu gontractau.

24. Gellir defnyddio gwybodaeth o ffynonellau eraill hefyd. Bydd yn rhaid i weithredwyr gydweithio ag unrhyw gais o'r fath am wybodaeth. Gallai peidio â gwneud arwain at atal grantiau'r BSSG.

25. O ran llywodraethu ac atebolrwydd, cynigir bod y trefniadau rhanbarthol presennol ar gyfer y BSSG yn addas ar gyfer y VWBQS.

26. Fel rhan o'u trefniadau hawlio chwarterol am BSSG, mae gofyn i awdurdodau lleol roi adroddiad i Lywodraeth Cymru am y gwaith sydd wedi'i wneud gan bob gweithredwr bysiau sy'n darparu gwasanaethau bysiau lleol yn eu hardal i ateb y gofynion yn y canllaw ac i ba raddau y maen nhw wedi llwyddo i gydymffurfio â phob un o'r gofynion craidd.

## Adolygiad cyfnodol

27. Bydd Llywodraeth Cymru'n adolygu'r VWBQS wrth ei roi ar waith. Mae'n bwysig sicrhau nad yw gweithredwyr llai sy'n darparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig a llai poblog yn dioddef mwy na'u siâr wrth gyflwyno'r safonau. Am hynny, cynhelir adolygiadau cyfnodol pellach, o leiaf bob pum mlynedd.

## Y Gymraeg

28. Mae'n weledigaeth gan Lywodraeth Cymru i weld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru. I wireddu'r weledigaeth honno, mae Strategaeth y Gymraeg am weld nifer y bobl sy'n gallu siarad a defnyddio'r iaith yn cynyddu. Yn ogystal â'r gofynion yn y VWBQS, mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau weithio mewn partneriaeth i wella'r defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau bysiau lleol.




OGL © Hawlfraint y Goron 2017
WG33524
ISBN digiol: 978-1-78859-931-3